# Ffurflen ganiatâd hawlfraint

Rhannu eich cynnwys gyda ni

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

## Rhannu eich cynnwys gyda ni

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ('ni', 'ein') yn defnyddio cynnwys i helpu rhannu'r neges am ddosbarthiad arian y Loteri Genedlaethol ac arian arall mewn grantiau at achosion da ('Ein Gwaith').

Hoffem gael eich caniatâd yn ffurfiol i ddefnyddio'ch cynnwys. Darllenwch y ffurflen hon yn ofalus i sicrhau eich bod yn deall yr hyn yr ydych yn cydsynio iddo cyn llofnodi. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â ni: brand.guidance@tnlcommunityfund.org.uk

Sylwch y gellir defnyddio'r ffurflen hon os ydych yn rhiant neu'n warcheidwad i naill ai rhywun o dan 13 oed, neu berson agored i niwed ac yn rhoi caniatâd ar eu rhan.

## Beth ydych chi'n cydsynio iddo?

Mae'r ffurflen hon yn caniatáu i ni ddefnyddio delweddau, ffilmiau a/neu synau yr ydych wedi'u creu a'u nodi yn Atodlen 1 y ffurflen hon ('Cynnwys') ar gyfer Ein Gwaith. Drwy gwblhau a llofnodi'r ffurflen hon, rydych yn rhoi eich caniatâd i ni:

- gofnodi, defnyddio, copïo, storio a chyhoeddi'r Cynnwys i hyrwyddo Ein Gwaith;
- rhannu'r Cynnwys gyda phartneriaid a thrydydd partïon dethol yr ydym yn gweithio gyda nhw (er enghraifft gweithredwyr a dosbarthwyr y Loteri Genedlaethol, adrannau'r llywodraeth, a sefydliadau a gyflogir gennym ni i ddarparu gwasanaethau, megis gwerthuswyr ac archwilwyr) ('ein Partneriaid') at y diben yn unig o hyrwyddo Ein Gwaith; a
- storio copïau o'r Cynnwys cyhyd ag sy'n angenrheidiol i gyflawni pwrpas hyrwyddo Ein Gwaith, neu i storio eich manylion cyswllt ar ein cronfa ddata rhag ofn y bydd angen i ni gysylltu â chi.

## Rydych yn cytuno y byddwch yn:

- peidio â derbyn na gofyn am unrhyw fath o daliad neu freindal gennym ni am y Cynnwys; a
- chael ein caniatâd ysgrifenedig cyn ymddangos mewn unrhyw fath o gyfryngau neu gyhoeddusrwydd sy'n honni eich bod yn ein cynrychioli, neu i siarad ar ein rhan neu mewn perthynas ag un o'n prosiectau, oni bai eich bod yn siarad am eich profiad eich hun o arian y Loteri Genedlaethol yn unig.

## Ble gallai ymddangos?

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i roi cyhoeddusrwydd i'n Gwaith ac felly gall y Cynnwys ymddangos yn ein deunyddiau neu ddeunyddiau ein Partneriaid. Gall ymddangos mewn un o'r ffyrdd canlynol:

- cyhoeddiadau print (gan gynnwys adroddiadau, taflenni a deunyddiau hyfforddi)
- ymgyrchoedd marchnata (gan gynnwys sylw yn y wasg mewn papurau newydd, gwefannau a chylchgronau a deunyddiau cyhoeddusrwydd wedi'u brandio fel posteri a baneri)
- platfformau ar-lein (gan gynnwys ein gwefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol, sioeau sleidiau digidol a chyflwyniadau, cylchlythyrau a systemau cyfathrebu mewnol)
- fideos, podlediadau a deunyddiau digidol eraill.

## Eich hawliau a'ch cyfrifoldebau

Drwy lofnodi'r ffurflen hon, rydych yn cadarnhau:

- bod gennych ganiatâd gwybodus yr holl unigolion sy'n cymryd rhan yn y Cynnwys ('Cyfranogwyr') i rannu'r Cynnwys gyda ni a'n Partneriaid, neu os yw Cyfranogwr o dan 13 oed neu'n berson agored i niwed, rydych wedi cael caniatâd rhiant, gwarcheidwad cyfreithiol neu gynrychiolydd cyfreithiol awdurdodedig y Cyfranogwr hwnnw; a
- chi sy'n berchen ar yr hawliau eiddo deallusol yn y Cynnwys ac rydych yn gallu rhoi trwydded i ni gopïo, cyhoeddi a manteisio fel arall ar y Cynnwys mewn unrhyw un o'r ffyrdd a amlinellir yn y ffurflen hon, ledled y byd, at ddiben hyrwyddo Ein Gwaith
- mae gennych yr hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl (gan gynnwys caniatâd Cyfranogwr) ar unrhyw adeg drwy anfon e-bost at: brand.guidance@tnlcommunityfund.org.uk.

## Diogelu Data

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gorff cyhoeddus sydd â dyletswydd statudol i ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol a chronfeydd eraill at achosion da. Rydym yn prosesu eich data personol fel rhan angenrheidiol o arfer yr awdurdod hwn.

Ni fyddwn yn casglu a/neu'n defnyddio data personol at ddibenion y tu hwnt i'n dyletswyddau statudol ac eithrio pan fyddwn wedi cael eich caniatâd neu wedi eich hysbysu o'r sail gyfreithiol berthnasol ar gyfer prosesu.

## Sut y byddwn yn defnyddio eich data personol

### Delweddau a geiriau

Efallai y byddwn yn defnyddio eich delwedd (ffotograff neu ffilm) a/neu eiriau (yn ysgrifenedig, sain neu ffilm) at y dibenion a amlinellir uchod. Ni fyddwn yn defnyddio eich delwedd (ffotograff neu ffilm) neu eiriau (yn ysgrifenedig, sain neu ffilm) at unrhyw ddiben arall heb roi gwybod i chi.

### Ffurflen ganiatâd

Bydd y data personol a roddwch i ni yn y Ffurflen Ganiatâd hon yn cael ei gadw'n ddiogel ar systemau SharePoint mewnol y Gronfa ac ni chaiff ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall.

### Sut rydym yn diogelu eich data personol ac am ba mor hir y byddwn yn ei gadw

Mae ffurflenni caniatâd yn cael eu storio ar weinydd diogel am gyfnod o saith mlynedd pan fyddant yn cael eu dinistrio'n ddiogel.

### Os nad ydych eisiau i'ch delwedd gael ei defnyddio gan y Gronfa mwyach

Gallwch newid eich meddwl unrhyw bryd am y caniatâd a roddwyd i'r Gronfa ddefnyddio'ch delweddau (cyfansoddiad) a'ch geiriau a gallwch ddileu eich caniatâd i'ch data personol gael ei brosesu gan y gronfa at y diben(ion) a amlinellir uchod. Anfonwch e-bost at brand.guidance@tnlcommunityfund.org.uk.

Ni fydd eich delwedd(au) a'ch gair(geiriau) yn cael eu defnyddio gan y Gronfa mwyach ac ynghyd â'r data personol (Ffurflen Ganiatâd), byddant yn cael eu dinistrio'n ddiogel.

## Caniatâd (ticiwch y blychau i gadarnhau)

☐ **Rhaid i chi sicrhau mai chi sy’n berchen ar yr hawliau eiddo deallusol yn y Cynnwys.**

Rwy’n cadarnhau fy mod yn berchen ar yr hawliau eiddo deallusol yn y Cynnwys ac yn rhoi trwydded i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i gopïo, cyhoeddi a manteisio fel arall ar y Cynnwys mewn unrhyw gyfrwng ledled y byd at y dibenion a nodir yn y ffurflen hon.

☐ **Os ydych chi wedi cynnwys Cyfranogwr yn y Cynnwys, rhaid i chi esbonio’n llawn sut mae’r Cynnwys yn cael ei ddefnyddio iddynt a chael eu caniatâd gwybodus i ddefnyddio’r Cynnwys gyda ni fel y nodir yn y ffurflen hon. Rhaid i chi hefyd sicrhau eu bod yn ymwybodol o’u hawliau i dynnu eu caniatâd yn ôl.**

Rwy’n cadarnhau fy mod wedi cael caniatâd gwybodus y Cyfranogwyr i ddefnyddio’r Cynnwys yn y ffordd a nodir yn y ffurflen hon.

☐ **Os yw’r Cynnwys yn cynnwys Cyfranogwr o dan 13 oed neu berson agored i niwed, rhaid i chi gael caniatâd rhiant, gwarcheidwad cyfreithiol neu gynrychiolydd cyfreithiol awdurdodedig i gymryd rhan a chael eu caniatâd i ddefnyddio’r Cynnwys gyda ni fel y nodir yn y ffurflen hon. Rhaid i chi hefyd sicrhau eu bod yn ymwybodol o’u hawliau i dynnu eu caniatâd yn ôl.**

Rwy’n cadarnhau bod gennyf ganiatâd gan y rhiant, gwarcheidwad cyfreithiol neu gynrychiolydd cyfreithiol awdurdodedig i ddefnyddio’r Cynnwys yn y ffordd a nodir yn y ffurflen hon.

## Derbyn

Cadarnhewch eich bod yn cytuno ac yn derbyn y telerau a nodir yn y ffurflen hon drwy gwblhau'r tabl isod.

Noder, os ydych yn llofnodi'r ffurflen hon ar ran plentyn neu berson agored i niwed, rydych yn cadarnhau mai chi yw rhiant, gwarcheidwad cyfreithiol neu gynrychiolydd cyfreithiol awdurdodedig yr unigolyn hwn a bod gennych yr awdurdod cyfreithlon i lofnodi'r ffurflen ganiatâd hon ar eu cyfer ac ar eu rhan a'ch bod wedi darllen a deall y telerau hyn a rhoi caniatâd i'r unigolyn ddarparu ei Gynnwys ar y sail hon.

Enw llawn (neu enw'r sefydliad)

E-bost

Rhif Ffôn

Cyfeiriad

Enw'r plentyn neu'r person agored i niwed (os yw'n berthnasol)

Llofnod cynrychiolydd awdurdodedig y plentyn neu berson agored i niwed (os yw'n berthnasol)

Llofnod (llofnodwr unigol neu lofnodwr awdurdodedig ar ran y sefydliad)

Dyddiad

## Atodlen 1 - Cynnwys

**Disgrifiad o'r Cynnwys**

**Dyddiad y rhoddwyd caniatâd**

**Cyfnod caniatâd yn dod i ben** (am gyfnod amhenodol oni nodir fel arall)

**Darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd:** Ffurflenni Cydsyniad Hysbysiad Preifatrwydd